# Trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau – Cyngor Sir Fynwy


Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4174A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom yr archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae comisiynu yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut olwg sydd ar dda 5

Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom yr archwiliad 5

Yr hyn a ganfuom 6

Ein hargymhellion i'r Cyngor 9

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 10

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom yr archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a gynhwysir yn:

- adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau; ac
- adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei nodau llesiant.

2 Gall yr archwiliad hwn hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:

- darparu sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y maent yn defnyddio adnoddau;
- darparu sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau;
- egluro sut mae cynghorau yn mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus trwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle y bo hynny'n berthnasol.

4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

## Pam mae comisiynu yn bwysig

5 Comisiynu yw'r broses a ddefnyddir gan y Cyngor i ddylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau gyda diffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a'r deilliannau a ddymunir ac yn diweddu pan fo'r Cyngor yn trefnu ei ddull cyflawni. Er enghraifft, trwy sefydlu tîm cyflawni yn fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.

6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu

leihau effaith gwasanaethau a'u gwerth am arian, hyd yn oed os yw'r prosesau sy'n dilyn, megis caffael a rheoli contractau, yn gadarn.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut olwg sydd ar dda[1]

7 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac yn benodol i ba raddau y mae hyn wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.

8 Nid oedd yr archwiliad hwn yn cynnwys trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

9 Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiwn cyffredinol: **Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau?**

10 Fe ddefnyddiom ni y meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos y berthynas rhwng meini prawf a'r cwestiynau archwilio. Mae hyn wedi'i lywio gan ein gwybodaeth gronnus, yn ogystal â'r hierarchaeth gwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau o gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

## Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom yr archwiliad

11 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda'r uwch swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ddatblygu dull comisiynu strategol y Cyngor. Fe wnaethom hefyd gyfweld ag uwch swyddogion â chyfrifoldeb am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.

12 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau sydd gan y cyngor, fe wnaethom brofi sampl o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u sefydlu i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, fe ddewisom ni nifer o wasanaethau lle mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau'n allanol ac fe archwiliom y trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Y sampl o feysydd gwasanaeth y gwnaethom eu hadolygu yn y Cyngor oedd:

- Gwastraff cartrefi ac ailgylchu
- Gwasanaethau bysiau

[1] Fe'i ddiffinir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arfer gorau, neu 'yr hyn a allai fod', pe bai'r amodau yn well.

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth Iechyd Meddwl

13 Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i lywio ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025.

14 Rydym yn gwneud y gwaith hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol wrth bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuom

15 Ar y cyfan, canfuom **nad oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth am arian yn gyson wrth gomisiynu gwasanaethau**. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

16 Nid yw'r Cyngor yn diffinio'n gyson y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu. Ar gyfer tendrau dros £75,000, mae'n ofynnol i feysydd gwasanaeth ddarparu disgrifiad o'r gwasanaeth o fewn Adroddiad Cyn Tendro. Ond fel arall nid oes gan y Cyngor ddull safonol i'r meysydd gwasanaeth ei ddilyn wrth ddiffinio'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu. Er enghraifft, nodwyd disgrifiad o'r gwasanaeth gwastraff cartrefi ac ailgylchu newydd yn y gwahoddiad i dendro. Mae dealltwriaeth glir o'r rheswm y mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn elfennau pwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

17 Nid yw'r Cyngor yn esbonio fel mater o drefn arferol pam mae angen iddo gomisiynu gwasanaethau. Nid oes gan y Cyngor ddull safonol i feysydd gwasanaeth ei ddilyn wrth nodi pam mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu. Er enghraifft, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar ei Strategaeth Trafnidiaeth Leol a helpodd i benderfynu ar yr angen am wasanaethau bysiau. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi nodi'n glir pam mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau eraill a adolygwyd gennym. Mae deall pam y mae'n comisiynu gwasanaethau yn bwysig er mwyn i'r Cyngor allu deall y canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni, ac felly iddo allu asesu a monitro ei werth am arian.

18 Nid yw'r Cyngor yn sicrhau ei fod bob amser yn cynnal arfarniad o opsiynau comisiynu cynhwysfawr cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth. Nid yw'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth gynnal arfarniad opsiynau cyn comisiynu gwasanaethau. Dywedodd y Cyngor wrthym fod amrywiaeth o opsiynau yn cael eu hystyried bob amser, gan gynnwys asesiadau risg a dadansoddiadau cost a budd, fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi dogfennu hyn ar gyfer y sampl o wasanaethau a adolygwyd gennym. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor o reidrwydd yn ystyried pob opsiwn i sicrhau ei fod yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar adeg pan fo'r Cyngor yn profi heriau

ariannol sylweddol ac wedi nodi bwlch cyllido posibl o £34.4 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng 2024-25 a 2027-28[2].

19 Nid yw'r Cyngor yn cynllunio ei weithgareddau comisiynu yn gyson dros amserlen briodol. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi'i gyfyngu gan amserlenni cyllid allanol ac mae'n cynllunio ochr yn ochr â'r amserlenni hyn. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth bysiau yn defnyddio cyllid Grant Rhwydwaith Bysiau a Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (GCGB). Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn nodi ei ddisgwyliadau ynghylch pa mor bell ymlaen y gall neu y dylai meysydd gwasanaeth gynllunio a pham. Rydym yn cydnabod y bydd yr hyn y mae 'tymor hir' yn ei olygu i wahanol wasanaethau neu wahanol benderfyniadau comisiynu yn amrywio. Ond er mwyn ei helpu i sicrhau gwerth am arian, mae'n bwysig bod trefniadau'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydbwyso ystyriaethau tymor hir a thymor byr perthnasol wrth gomisiynu gwasanaethau.

20 Nid yw'r Cyngor yn nodi'n gyson sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro. Nid oes gan y Cyngor drefniadau corfforaethol ar waith i'w gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud hyn. Nid oedd unrhyw un o'r meysydd gwasanaeth a adolygwyd gennym wedi dogfennu'n glir sut mae gwerth am arian yn cael ei asesu a'i fonitro. Fodd bynnag, darparodd y Cyngor dystiolaeth bod y Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Meddwl yn cael ei adolygu'n flynyddol sy'n caniatáu i'r Cyngor ffurfio barn ynghylch gwerth am arian y gwasanaeth penodol hwnnw. Heb nodi'n gyson sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu gwerthuso a'u monitro, mae'n anodd i'r Cyngor gael sicrwydd bod ei drefniadau comisiynu yn darparu gwerth am arian.

21 Mae'r Cyngor wedi ystyried yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaethau comisiynu eu cael ac wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ei strategaethau a'i gynlluniau cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson fel rhan o'r broses gomisiynu. Gall ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau comisiynu helpu'r Cyngor i osgoi dyblygu a nodi manteision lluosog sy'n sicrhau canlyniadau gwell a gwerth am arian.

22 Nid yw'r Cyngor yn sicrhau yn gyson ei fod yn cynnwys y bobl a'r partneriaid cywir wrth ddylunio gwasanaethau a gomisiynir. Er enghraifft, nid oes gan y Cyngor drefniadau comisiynu sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo ddeall ar bwy fydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn cynnal dadansoddiad rhanddeiliaid yn systematig fel rhan o'r broses gomisiynu ar gyfer gwasanaethau unigol. Roedd y meysydd gwasanaeth a adolygwyd gennym yn dangos dealltwriaeth o'u rhanddeiliaid allweddol ond nid oeddent wedi cynnal dadansoddiad rhanddeiliaid fel rhan o'r broses gomisiynu. Ni wnaethom ychwaith ganfod unrhyw dystiolaeth o ganlyniadau gweithgarwch cyfranogi er mwyn llywio sut y comisiynwyd y gwasanaethau hynny. Gall gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn

[2] Archwilio Cymru, Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Fynwy, Hydref 2024

comisiynu gwasanaethau sy’n diwallu anghenion ei gymunedau, a bod y gwasanaethau hynny’n cael eu darparu mewn ffordd sy’n sicrhau’r gwerth am arian gorau.

23 Mae’r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu rhai gwasanaethau a gomisiynir. Er enghraifft, mae ei Strategaeth Gaffael yn ymrwymo’r Cyngor i weithio mewn partneriaeth, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn digwydd yn ymarferol. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau ei fod bob amser yn ystyried cyfleoedd posibl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth wrth gomisiynu gwasanaethau. Trwy beidio â sicrhau yn systematig ei fod yn archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, mae’r Cyngor mewn perygl o golli cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy, er enghraifft, rannu adnoddau neu arbenigedd.

24 Nid yw’r Cyngor yn gwerthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu yn gyson. Fodd bynnag, mae wedi adolygu effeithiolrwydd ei ddull yn y gorffennol. Er enghraifft, yn dilyn adolygiad yn 2020, fe wnaeth y Cyngor allanoli ei swyddogaeth gaffael i drefniant cydweithredol gyda thri chyngor arall o’r enw Ardal. Mae rhywfaint o gylch gwaith Ardal hefyd yn cynnwys elfennau o gomisiynu. Fodd bynnag, nid oes canllawiau ar draws y Cyngor i feysydd gwasanaeth ei ddilyn wrth adolygu gwerth am arian eu dull o gomisiynu. Nid oes gan y Cyngor ddull ffurfiol i rannu a chymhwyso gwersi a ddysgwyd o’i ddull comisiynu naill ai ar draws y sefydliad neu gyda phartneriaid. Mae gwerthuso cost ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu a rhannu gwersi a ddysgwyd yn bwysig i helpu i nodi meysydd i wella gwerth am arian.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor**

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | **Sefydlu trefniadau comisiynu cyson.**<br>Canfuom nad oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth am arian yn gyson wrth gomisiynu gwasanaethau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlynol yn gyson:<br>• bod ganddo resymeg glir dros gomisiynu gwasanaethau;<br>• ei fod yn cynllunio dros amserlen briodol wrth gomisiynu gwasanaethau;<br>• ei fod yn ystyried yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaethau a gomisiynir eu cael;<br>• ei fod yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir;<br>• ei fod yn gwerthuso gwerth am arian ei drefniadau comisiynu;<br>• ei fod yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd ar draws y sefydliad ac â phartneriaid allanol lle y bo hynny'n briodol. |
| **A2** | **Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor.**<br>Sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn gweithredu'r trefniadau a argymhellir uchod, ar ôl i'r trefniadau hyn gael eu rhoi ar waith, dylai'r Cyngor:<br>• nodi'n glir ei ddisgwyliadau a'i ganllawiau ar gyfer comisiynu gwasanaethau;<br>• cyfleu ei ddisgwyliadau ar draws meysydd gwasanaeth; a<br>• monitro i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn cael eu gweithredu. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** Wrth gomisiynu gwasanaethau a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau?

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| A oes gan y Cyngor resymeg eglur dros gomisiynu gwasanaethau? | A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir pa wasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham? | • Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau, gan gynnwys:<br>– deilliannau/effaith bwriadedig darparu'r gwasanaeth<br>– a fydd/sut y bydd gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol |
| | A yw'r Cyngor yn cynnal arfarniad cynhwysfawr o opsiynau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth – gallai opsiynau gynnwys y canlynol, er enghraifft:<br>– darpariaeth fewnol;<br>– trefniadau partneriaeth neu ddulliau comisiynu o fewn ac ar draws sectorau;<br>– allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall trwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall;<br>– contractio'r gwasanaeth trwy broses dendro<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried cost a budd yr opsiynau o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – gan gynnwys dros y tymor byr, canolig a hir<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contractau o fewn ei asesiad o opsiynau comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad o risg ar gyfer pob opsiwn comisiynu fel rhan o asesu cost a budd<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth am y ffactorau presennol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| A yw'r Cyngor yn cynllunio o fewn amserlen briodol? | A yw'r Cyngor yn ystyried beth mae hirdymor yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn ystyried beth mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen all/ddylai gynllunio a pham.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor wrth gynllunio ar gyfer comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys er enghraifft wrth bennu'r ffrâm amser ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill |
| | A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau hirdymor o ran adnoddau wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu ystod o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol mewn gwasanaethau a gomisiynir. |
| | A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir? | • Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir<br>• Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro, gan gynnwys:<br>– cost a budd;<br>– cynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a hir |
| A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaeth a gomisiynir eu cael? | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gynyddu eu cyfraniad at nodau llesiant y Cyngor? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl nodau llesiant ei hun i sicrhau manteision lluosog, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol, e.e. ystyried amcanion tymor hwy, y gadwyn gyflenwi leol, cydnerthedd y farchnad ac effaith hyd contractau, bioamrywiaeth, lleihau carbon |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau gynyddu eu cyfraniad at nodau llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar nodau llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau gynyddu eu cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir? | A yw'r Cyngor wedi nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys? | • Mae'r Cyngor yn deall pwy yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan wasanaethau a gomisiynir. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad rhanddeiliaid neu ymarfer tebyg. |
| | A yw'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i lywio'r modd y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig |
| | A yw'r Cyngor yn cydweithio â'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn deall yn dda pa bartneriaid a pha bartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau.<br>• Lle mae cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth yn cael eu nodi, mae'r Cyngor yn mynd ar eu trywydd. |
| A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu? | A yw'r Cyngor yn mynd ati fel rhan o drefn arferol i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu? | • Mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd effeithiolrwydd ei ddull comisiynu, gan gynnwys:<br>– I ba raddau y mae gwasanaethau comisiynu yn bodloni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod<br>– Gwerth am arian modelau comisiynu a ddewiswyd gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau. |
| | A yw'r Cyngor yn mynd ati fel rhan o drefn arferol i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd i lywio ymarferion comisiynu yn y dyfodol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.